COFNODION Y CYNGOR: Materion Agored - 11.00 a.m., Dydd Llun 29 Ionawr 2024
Cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd mewn sawl lleoliad, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Materion Agored y Cyngor - cofnodion 1 i 11.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (yn Cadeirio), Stephen Nicholls, Victory Ezeofor, Jenni Jones-Annetts, Tim Palazon, Jan Tiley, Cathy Clark, Judith Evans; Chris Franks (hyd at ddiwedd cofnod 6).
Hefyd yn bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Clerc); Iola Llwyd (cyfieithydd - gwasanaeth cyfieithu ar y pryd).
Ymddiheuriadau: Sam Emmett, Salamatu Fada, Nicole Kinnaird, Dona Lewis, Siôn Aled Owen.
Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 28 Tachwedd 2023 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Materion Agored cyfarfod hybrid blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd yr holl bwyntiau gweithredu a restrid ar ddiwedd y cofnodion hynny wedi cael eu gweithredu: roedd y Polisi Amgylcheddol a gymeradwywyd yno bellach ar gael ar dudalen gwe Cynaliadwyedd AOC; ac roedd staff wedi'u hysbysu am benderfyniad AOC i dalu'r ffi am y brechlyn rhag y ffliw, gyda 4 wedi cymryd fantais o'r cynnig hyd yn hyn.

3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2023 ac adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer Llywodraeth Cymru

Roedd hwn wedi bod yn gyfarfod boddhaol dros ben yn ôl ei Gadeirydd, Chris Franks, gyda'r archwilwyr allanol a mewnol yn bresennol. Yn eu hadroddiad, roedd yr archwilwyr (Cwmni Cyfrifyddu Barker Knoyle) wedi cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol unwaith yn rhagor (cofnodion 2 a 3), ac roedd yr eitem a drafodwyd *in camera* heb gynrychiolwyr o blith y staff (cofnod 4) yn galonogol iawn hefyd. Nodwyd y ffigurau yn ymwneud ag addysgu ESOL yn 2023 (cofnod 1) ac roedd potensial am fwy o gydbwyso o ran y cwricwlwm yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol yn sgil ehangu rhaglen rhifedd sylfaenol *Multiply*, er roedd hynny wedi'i gyfyngu hyd at gyfnod gwanwyn 2025.

O ran y gwaith archwilio mewnol, roedd yr un eitem oedd heb ei gwblhau yn dilyn argymhellion y flwyddyn flaenorol gan TIAA, ynghylch llawlyfr diweddaredig ar gyfer canghennau (cofnod 6), yn cael ei adolygu oherwydd roedd cangen newydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar. Roedd TIAA wedi nodi 'sicrwydd sylweddol' yn eu sylwebaeth am holl adroddiadau'r flwyddyn, ac eithrio'r un ynghylch y Strategaeth TG, oedd yn cynnig sicrwydd 'rhesymol' yn unig. Byddai'r broses o sefydlu systemau cwmwl oedd ar y gweill yn cryfhau systemau yn y maes hwnnw a byddai strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi. Nododd y Cyngor y cofnodion, a'r adroddiad blynyddol atodedig ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Gadeirydd y Pwyllgor.

4. Cofrestr Risgiau ar gyfer Ionawr 2024

Nid oedd unrhyw risgiau wedi newid o ran eu statws risg gros neu net ers Cofrestr Tachwedd 2023, a adolygwyd gan y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio. Roedd cyfnod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Nadolig wedi golygu na chafwyd llawer o amser i wneud cynnydd penodol neu i wireddu newidiadau canlynol ers y fersiwn blaenorol. Roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn dal yn cytuno â'r nifer o risgiau oedd wedi'u rhestru (gormod o lawer o bosibl, ym marn Cadeirydd y Cyngor).

5. Adroddiad y Prif Weithredwr, Ionawr 2024

Dywedodd Kathryn Robson fod AOC yn cydweithio â TUC Cymru ynghylch cyrsiau cyflogadwyedd posibl, yn gysylltiedig â'r diswyddiadau a gyhoeddwyd gan Tata Steel mewn perthynas â'u safle ym Mhorth Talbot. Hefyd, roedd lansiad gweithredol y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wedi'i ohirio tan Awst 2024 tra byddai rhagor o bobl yn cael eu penodi yn aelodau o'r Bwrdd. Roedd hynny'n golygu y byddai HEFCW yn parhau am dipyn fwy, a byddai newidiadau i'r dull o reoleiddio a chyllido addysg a sgiliau ôl-16 yn digwydd yn fwy graddol nag y bwriedid yn wreiddiol. Roedd y nodyn yn yr Adroddiad am y posibilrwydd y byddai AOC yn cymryd cyfrifoldeb rhannol am rai o gyrsiau blaenorol Chwarae Teg yn ymwneud â phynciau megis iechyd a diogelwch, y menopos a merched sy'n arweinwyr. Yn sgil diwedd Chwarae Teg, roedd AOC yn dal i ymdrechu i barhau â'r berthynas bositif ag uwch swyddogion sifil, a chodi ei broffil ym meysydd Llywodraeth Cymru yn ehangach.

Roedd y Grŵp Arweinwyr Duon wedi gofyn i AOC ddwyn sylw at arferion da ei weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus ym maes hil (yn enwedig y sesiwn 'gwyliedyddion gweithredol', a luniwyd ar y cyd ag AOC) mewn cynhadledd. Nodwyd datblygiadau o ran partneriaethau rhyngwladol, datblygiadau marchnata a moderneiddio TG hefyd.

[Mae mater cyfrinachol, yn ymwneud â thrafodaeth ynghylch eiddo a gafwyd ar yr adeg hon yn ystod y cyfarfod, wedi'i gofnodi ar wahân.]

Cyllid a sefydlogrwydd ariannol (adran 5 yn yr Adroddiad) oedd y mater pwysig arall a drafodwyd. Roedd rhywfaint o amrywiadau o ran y senarios yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cynnig, ac nid oedd y swm terfynol wedi'i gadarnhau. Er bod cynnydd posibl o 0.57% yng ngrant craidd 2024-25 AOC gan Lywodraeth Cymru yn rhywbeth buddiol, byddai'n golygu bod rhaid i'r Sefydliad ysgwyddo cyfrifoldeb am ariannu gweddill y cynnydd costau byw o 3.5% yng nghyflogau'r flwyddyn honno gan ddefnyddio ei adnoddau ei hun, felly roedd y cynnydd yn gyfystyr â thoriad ariannol mewn gwirionedd. Byddai angen adnoddau mewnol hefyd i wneud iawn am ostyngiadau anochel yn nhaliadau Cyfrifon Dysgu Personol, Iechyd Meddwl a Llesiant a chynnal a chadw eiddo oedd yn deillio o ffynonellau eraill yn Llywodraeth Cymru. Roedd hi'n anoddach cynllunio at gyrsiau undebau llafur nag yn achos unrhyw sector arall, oherwydd roedd y gyllideb a gâi TUC Cymru gan y Llywodraeth wedi gostwng 38%, a byddai hynny'n effeithio ar AOC hefyd. Ar y llaw arall, roedd yn newyddion da y byddai AOC yn derbyn gwerth bron i £2.2 miliwn o gyllid prosiect *Multiply*, ac roedd tâl gweinyddu sylweddol yn cael ei godi fel rhan o'r cyfanswm hwnnw.

Roedd y Sefydliad wedi bod yn ystyried defnyddio rhywfaint o'i gronfeydd wrth gefn i fuddsoddi mewn adeilad y bwriedid ei brynu yn Abertawe, ond nid oedd eiddo addas wedi'i nodi. Roedd gan lawer o golegau AB lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn, yn union fel AOC. Mynegwyd y farn na fyddai Llywodraeth Cymru na'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn debygol o ystyried hynny wrth benderfynu faint o gyllid i'w ddyfarnu i AOC yn y dyfodol. Nid oedd gan Lywodraeth Cymru gyllideb dreigl 3 blynedd i gynorthwyo â chynlluniau ariannol; gallai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fynd i'r afael â hynny ar ôl ei sefydlu.

6. Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli – fformat diwygiedig

Roedd y dangosyddion hyn wedi'u nodi'n flaenorol ar sail flynyddol, fesul blwyddyn galendr. Roedd y fformat newydd hwn yn eu cyflwyno'n wahanol, ac roedd llai ohonynt. Roedd targedau blynyddol yn achos tri ac roedd amserlenni'r gweddill yn para tan 2026, yn unol â chylch y Cynllun Strategol. Cynigodd Kathryn Robson y dylai hwn fod yn un o eitemau digwyddiad preswyl strategol mis Mai, oherwydd credai y dylai rhai o'r amcanion fod yn fwy uchelgeisiol.

Holodd Steve Nicholls a ellid cynnwys dangosydd ychwanegol yn ymwneud â chynnydd yng nghyfanswm cyffredinol y myfyrwyr bob blwyddyn. Nid oedd aelodau'r UDRh yn credu y byddai hynny'n fesur dilys, oherwydd roeddent yn credu y gellid ystumio hynny'n eithaf rhwydd trwy gynnal rhagor o gyrsiau byr. Yn hytrach na mesur meintiol o'r fath, byddai un ansoddol yn fwy ystyrlon, a gellid cynnwys hynny trwy ddefnyddio'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr fel mesur. **Cytunwyd y dylid ychwanegu'r mesur hwnnw, a byddai rhagor o ddiwygiadau yn cael eu trafod ym mis Mai.**

7. Cofnodion cyd-gyfarfod y Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a'r Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023

Nododd Steve Nicholls bwyntiau allweddol o'r cofnodion, yn cynnwys y cynnydd yn nifer y dysgwyr yn rhanbarth y Gogledd a oedd yn gysylltiedig ag ymdrechion marchnata wedi'u targedu'n fwy penodol, ac agor Caffi Atgyweirio Port Talbot a'i statws fel un o ganghennau'r Sefydliad. Ynghylch cofnod 9, esboniwyd fod corff dyfarnu NOCN yn lleihau ei ddarpariaeth yng Nghymru oherwydd roedd llai o alw am ei gymwysterau. Felly, roedd AOC yn trosglwyddo rhai o'i gyrsiau i gymwysterau Agored Cymru yn lle hynny. Roedd yn dal yn ddichonol y gallai'r adnoddau digidol oedd yn ofynnol i ehangu rhaglen *Multiply* gael eu cyllido, gan ddefnyddio arian o gronfa waddol Tudor Bowen Jones.

8. Drafft o'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023

Roedd y ddogfen hon wedi cael sylw trylwyr yng nghyfarfodydd y ddau bwyllgor a gynhaliwyd yn Rhagfyr 2023 ac roedd y ddau bwyllgor wedi argymell y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo. Roedd adroddiad diamod yr archwilwyr, mantolen gref a chyflawni'r holl amcanion ariannol yn agweddau canmoladwy ar yr adroddiad. **Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r Adroddiad fel yr oedd ac awdurdodi y gellid ei gadarnhau yn y CCB yn Ebrill 2024.**

9. Datganiadau Ariannol - Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst -31 Rhagfyr 2023

Roedd cyfran helaeth o gynnwys allweddol yr adroddiad hwn wedi'i drafod yng nghofnod 5 i bob pwrpas. Cyfeiriodd Mark Baines at un ffaith galonogol: roedd 65% o ddarpariaeth addysgol y flwyddyn honno wedi'i chyflawni erbyn diwedd mis Rhagfyr. Yn sgil y rhagolygon am ganlyniad ariannol cadarnhaol ar gyfer gweithgareddau'r flwyddyn, gallai'r fantolen gael ei chryfhau ymhellach erbyn diwedd y flwyddyn hefyd.

10. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Ym marn aelodau'r Uwch Dîm Rheoli, yn sgil cyfarfod y Cyngor yn digwydd ar ddiwedd mis Tachwedd a chyfarfodydd y pwyllgorau ym mis Rhagfyr, roedd gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn golygu nad oedd digon o ddata newydd ar gael ac nid oedd digon o ddatblygiadau newydd wedi digwydd i sicrhau bod cyfarfod o'r Cyngor ar ddiwedd Ionawr yn wirioneddol ystyrlon. Roeddent hefyd yn credu, yn sgil y nifer

fwy o ddigwyddiadau cyhoeddus oedd yn cael eu trefnu gan AOC a'u hychwanegu at y calendr, roedd cyfle i aelodau'r Cyngor fod yn bresennol mewn digwyddiadau eraill a allai fod yn fwy priodol iddynt, a chyfrannu'n fuddiol atynt. **Cytunodd aelodau'r Cyngor y dylid cynnwys cyfarfod mis Ionawr yng nghalendr digwyddiadau 2025, ond dylid nodi fod hynny 'i'w gadarnhau', oherwydd gallai'r Uwch Dîm Rheoli benderfynu ei ganslo pe baent yn ystyried nad oedd unrhyw faterion taer neu bwysig i'w trafod ynddo.**

Cynigodd Victory Ezeofor y dylai'r llywodraethwyr drafod manteision ac anfanteision Deallusrwydd Artiffisial, oherwydd roedd hynny'n bwnc cyfoes pwysig ym maes addysg. Prin oedd y Sefydliad wedi cychwyn ei ddefnyddio, nad oedd yn rhan o'r cynllun strategol oedd yn ei le a byddai'n adeg briodol i ystyried ei oblygiadau. **Cytunwyd y dylai hynny fod yn un o'r prif destunau trafod yn nigwyddiad cynllunio strategol mis Mai.**

11. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cysylltiedig yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol:

- Dydd Llun 11 Mawrth 2024
- Dydd Mawrth 9 Ebrill 2024: y Gynhadledd Flynyddol gan gynnwys CCB y Sefydliad: Theatr Soar, Merthyr Tudful
- Dydd Mercher a Dydd Iau, 22 a 23 Mai 2024: Digwyddiad Cynllunio Strategol: Nant Gwrtheyrn, Gwynedd
- Dydd Gwener 5 Gorffennaf 2024

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 6	Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli – fformat diwygiedig	Cytunwyd y dylid ychwanegu dangosydd ynghylch mesur cynnydd dysgwyr, ac y byddai rhagor o ddiwygiadau yn cael eu trafod yn ystod digwyddiad cynllunio strategol mis Mai.	Yr Uwch Dîm Rheoli	Mai 2024
Cofnod 8	Drafft o'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023	Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r Adroddiad fel yr oedd ac awdurdodi y gellid ei gadarnhau yn y CCB yn Ebrill 2024.	MB / ST	Ebrill 2024
Cofnod 10	Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor	Cytunodd aelodau'r Cyngor y dylid cynnwys cyfarfod mis Ionawr yng nghalendr digwyddiadau 2025, ond dylid nodi fod hynny 'i'w gadarnhau', oherwydd gallai'r Uwch Dîm Arwain benderfynu ei ganslo pe baent yn ystyried nad oedd unrhyw faterion taer neu bwysig i'w trafod ynddo. Awgrymwyd a chytunwyd y dylai'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial ym maes addysg fod yn un o'r prif destunau trafod yn nigwyddiad cynllunio strategol mis Mai.	UDRh / ST UDRh / ST	Gorffennaf 2024 Mai 2024